# Darganfyddwch Campws Penglais

## Y Ganolfan Chwaraeon

aber.ac.uk/cy/sportscentre

Dyma, yn llythrennol, guriad calon y Campws lle mae ein myfyrwyr, ein clybiau chwaraeon a Thîm y Ganolfan Chwaraeon yn cydweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau y cewch chi'r profiad gorau oll yn Aberystwyth o ran chwaraeon ac ymarfer corff.

Mae'r gromen chwaraeon, a agorwyd yn Ionawr 2024, yn cynnwys y diweddaraf mewn offer campfa hunan-bweru. Mae'r gromen yn cynnwys 130 o orsafoedd ymarfer, gan gynnwys beiciau, peiriannau rhwyfo a pheiriannau rhedeg, a gall defnyddwyr fonitro eu cynnydd ar sgriniau digidol wedi'u pweru yn bennaf gan yr ynni y maent yn ei gynhyrchu wrth iddynt ymarfer ar nifer ohonynt.

Yn ogystal â'r gromen, mae gennym bwll nofio a saunariwm; stiwdio ddawns; wal ddringo a dwy neuadd chwaraeon amlbwrpas.

Mae ein cyfleusterau awyr agored yn cynnwys cae 3G â llifoleuadau; trac 400m 2 lôn; 48 erw o gaeau chwaraeon a chyfleusterau arbenigol ar gyfer chwaraeon dŵr. Rydym yn cynnig dros 40 o ddosbarthiadau ffitrwydd yn wythnosol lle mae hyfforddwyr profiadol yn cynnig ystod o sesiynau ar gyfer pob lefel.

Mae myfyrwyr sy'n byw yn ein llety a reolir gan y Brifysgol yn cael Aelodaeth Blatinwm am ddim i Ganolfan Chwaraeon y Brifysgol, gyda mynediad i'r holl gyfleusterau, a dosbarthiadau ffitrwydd a lles.

## Undeb y Myfyrwyr

umaber.co.uk

Dewch draw at y Ddesg Groeso yn Undeb y Myfyrwyr rhwng 9:00 a 16:00 ble bydd aelod o dim UMAber yn ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych. Mae llawer iawn mwy i fod yn fyfyriwr na dim ond darlithoedd ac astudio; mae a wnelo a'r profiad crwn; pethau newydd, bod yn anturus a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd yno ar eich cyfer. Mae ein swyddogion etholedig yma i gynrychioli holl fyfyrwyr Aber ar bob math o faterion ac rydyn ni'n darparu ystod helaeth o wasanaethau, clybiau a chymdeithasau.

## UMCA

Undeb y Myfyrwyr Cymraeg yw UMCA sy'n cynrychioli ei haelodau yn gymdeithasol, yn ieithyddol ac yn addysgiadol. Yn ogystal a threfnu pob math o ddigwyddiadau cymdeithasol gydol y flwyddyn, mae UMCA yn gartref i lawer o gymdeithasau Cymraeg sy'n caniatau ichi fod yn rhan o gymuned wych. Am fwy o wybodaeth, ewch i: aber.ac.uk/cyfrwngcymraeg

## Gwasanaethau Gwybodaeth

aber.ac.uk/cy/is

Llyfrgell Hugh Owen yw prif Llyfrgell y Brifysgol sy'n cynnig tawelwch a mannau astudio grŵp, llyfrau a chyfnodolion a ystod eang o gyfleusterau ac adnoddau i gefnogi eich astudiaethau – mae'r Ddesg Ymholiadau TG a'r Llyfrgell wedi'i lleoli yma hefyd. Mae'r llyfrgell ar agor 24/7 yn ystod y tymor. Bydd ymgeiswyr yn cael eu harwain drwy'r llyfrgell fel rhan o Daith Campws, a drefnir gan eich adran, ac mae croeso i chi hefyd ymweld â'r llyfrgell yn eich amser eich hun.

## Canolfan y Celfyddydau

aberystwythartscentre.co.uk/cy

Mae'r Ganolfan hon wedi ennill gwobrau ac mae ganddi adnoddau nad oes eu gwell yng Nghymru, na llawer man ym Mhrydain. Mae'n cynnig rhaglen brysur drwy gydol y flwyddyn o berfformiadau byw, ffilmiau, digwyddiadau arbennig, arddangosfeydd, cyrsiau a gweithdai. Mae'r adnoddau yn cynnwys neuadd gyngerdd, theatr, sinema, orielau cyfoes a lleoedd i gynnal gweithdai.

